GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

Llysoedd Ynadon
ARDAL
DYFED POWYS

UNO ARDALOEDD CYFIAWNDER LLEOL

DOGFEN YMGYNGHORI

Code Number CP (L)15/05

Cyfarwyddwr Ardal
Ardal Dyfed Powys
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
4/5 Heol y Cei
Caerfyrddin
SA31 3JT

4ydd Gorffennaf 2005

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
ARDAL DYFED POWYS
Llysoedd Ynadon

UNO ARDALOEDD CYFIAWNDER LLEOL

DOGFEN YMGYNGHORI

---

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas y ddogfen hon yw esbonio'r cynnig i uno ardaloedd cyfiawnder lleol penodol yn Nyfed Powys, dan ddarpariaethau Adran 8 Deddf Llysoedd 2003, a rhoi gwybod i'r bobl hynny sydd â diddordeb yn nhrefniadaeth y llysoedd ynadon a'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Ceir rhestr graidd y cyrff a'r bobl yr anfonir y ddogfen ymgynghori hon atynt yn Atodiad A. Bydd Cyfarwyddwr Ardal Dyfed Powys Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn trefnu i'r ddogfen hon gael ei hanfon atynt. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gyflawn nac yn gyfyngedig, a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn ar y pwnc a drafodir yn y papur hwn.
Dylid cyfeirio ceisiadau am ddarparu'r ddogfen mewn unrhyw iaith neu unrhyw gyfrwng arall at y Cyfarwyddwr Ardal.

Cyflwynwyd y term 'Ardal Cyfiawnder Lleol' yn Neddf Llysoedd 2003, a chyn rhoi'r ddeddfwriaeth honno ar waith, gelwid yr ardaloedd cyfiawnder lleol yn 'Ardaloedd Llysoedd Ynadon'. Yr enw torfol a ddefnyddir ar gyfer yr ynadon sy'n eistedd i wrando busnes yr uchel lys mewn Ardal Cyfiawnder Lleol yw 'Mainc' o ynadon.

2. Y CYNNIG I UNO ARDALOEDD CYFIAWNDER LLEOL

Cynigir y dylid uno'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol a ganlyn, ar yr amod y gwneir Gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy gyfrwng Offeryn Statudol, yn rhinwedd Adran 8 Deddf Llysoedd 2003:

a. **Uno'r ardaloedd cyfiawnder lleol a ganlyn i ffurfio un Ardal Cyfiawnder Lleol newydd:**
   i. **Gogledd Sir Benfro**
   ii. **De Sir Benfro**

A

b. **Uno'r ardaloedd cyfiawnder lleol a ganlyn i ffurfio un ardal cyfiawnder lleol:**
   i. **De Maldwyn**
   ii. **Y Trallwng**

3. YR ENWAU A GYNIGIR AR GYFER YR ARDALOEDD CYFIAWNDER LLEOL UNEDIG

a. Ar ôl eu huno, bod ardaloedd cyfiawnder lleol Gogledd a De Sir Benfro'n ffurfio

Ardal Cyfiawnder Lleol Sir Benfro

b. Ar ôl eu huno, bod ardaloedd cyfiawnder lleol De Maldwyn a'r Trallwng yn ffurfio

Ardal Cyfiawnder Lleol Sir Drefaldwyn

4. DYDDIAD YR UNO

Bod yr uno'n dod i rym ar y 1af o Ionawr 2006 neu ar ba ddyddiad bynnag arall a bennir trwy Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol.

5. Y CYFNOD YMGYNGHORI

Wyth wythnos fydd y Cyfnod Ymgynghori, gan ddechrau ar 4ydd Gorffennaf 2005 a gorffen ar 29ain Awst 2005. Er y bydd yr ymgynghoriad hwn, at ei gilydd, yn dilyn y Cod Ymddygiad ynghylch Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, penderfynodd y Gwir Anrhydeddus Harriet Harman AS CF, y Gweinidog Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol, bod cwtogi'r cyfnod ymgynghori o 12 wythnos i wyth yn dderbyniol dan yr amgylchiadau. Penderfynwyd hyn er mwyn sicrhau bod gofynion amserlen ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Fainc, fel y'u pennir yn Rheolau Ynadon Heddwch (Maint Cadeiryddiaeth y Fainc) 2005 yn gallu cael eu cwrdd ac yn wyneb y ffaith na ragwelir unrhyw newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn a fyddai'n cael unrhyw effaith faterol ar y gwasanaeth i'r cyhoedd. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn mor effeithiol â phosibl, fe'i cynhyrchwyd yn ddwyieithog ac fe'i cyhoeddir yn y wasg leol ac ar wefan GLlEM.

Anfonwch eich ymateb, os gwelwch yn dda, erbyn 29ain Awst 2005 at:

Mrs Ann Beaumont
Rheolwr Cyswllt y Farnwriaeth
Swyddfa Clerc yr Ynadon
4/5 Heol y Cei
Caerfyrddin
SA31 3JT

Rhif ffôn: 01267 220523
Ffacs: 01267 244128
E-bost: dy-dyfedpowysmccorp@hmcourts-service.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir cael rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae modd cael copi ar-lein ohono hefyd ar: http://www.dca.gov.uk/consult/confr.htm.

Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar 5ed Medi 2005.

6. CRYNODEB O'R RHESYMAU DROS YR UNO

a. Mae meinciau'r ynadon sy'n gwasanaethu'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol wedi dweud eu bod yn dymuno gweld yr uno hwn yn digwydd.

b. Yn yr ardaloedd y cynigir eu huno, mae'r ardaloedd cyfiawnder lleol hynny eisoes yn rhannu adeiladau'r llys, hynny yw:

   i. Mae Ardal Cyfiawnder Lleol **Gogledd Penfro** ac Ardal **De Penfro yn** rhannu Llysoedd Barn Hwlffordd yn Hawthorn Rise, Hwlffordd; a

   ii. Mae Ardal Cyfiawnder Lleol **De Maldwyn** ac Ardal **Y Trallwng** eisoes yn rhannu cyfleusterau'r llys yn y Trallwng:

c. Mae ynadon meinciau pob un o leoliadau'r llys eisoes yn eistedd ar y cyd, fel petaent wedi uno'n barod dan y drefn a gynigir, hynny yw, pa bryd bynnag y bo hynny'n gyfreithlon bosibl.

   i. Bydd ynadon Ardaloedd Cyfiawnder Lleol **Gogledd Penfro a De Penfro** eisoes yn eistedd ar y cyd fel petaent wedi uno'n barod, gyda phanelau o ynadon neu feinciau dydd yn cynnwys ynadon o'r ddwy Ardal Cyfiawnder Lleol.

   ii. Bydd ynadon Ardaloedd Cyfiawnder Lleol **De Maldwyn** a'r **Trallwng** eisoes yn eistedd ar y cyd fel petaent eisoes wedi'u huno, gyda phanelau o ynadon neu feinciau dydd yn cynnwys ynadon o'r ddwy Ardal Cyfiawnder Lleol.

d. Yn achos y naill uno a'r llall, effaith y cynnig i uno fyddai ffurfioli'r newidiadau sylweddol sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith gyda chaniatâd yr ynadon.

e. Yr hyn sydd wedi sbarduno'r cynigion i uno'r meinciau, yn achos Sir Benfro a Sir Drefaldwyn, yw'r ynadon sydd wedi'u penodi yn yr ardaloedd cyfiawnder lleol hynny. Mae mwyafrif yr ynadon yr effeithir arnynt gan yr uno a gynigir, os nad pob un ohonynt, o blaid y camau hyn.

7 YNADON

Dyma nifer yr ynadon sydd wedi'u penodi i'r meinciau yr effeithir arnynt gan y cynigion hyn:

(a).**Yn yr Ardal Cyfiawnder Lleol a gynigir ar gyfer Sir Benfro**

1	**Gogledd Sir Benfro**	**41 o ynadon**
2	**De Sir Benfro**	**29 o ynadon**
	Cyfanswm	**70 o ynadon**

(b).**Yn yr Ardal Cyfiawnder Lleol a gynigir ar gyfer Sir Drefaldwyn**

1	**De Maldwyn**	**21 o ynadon**
2	**Y Trallwng**	**17 o ynadon**
	Cyfanswm	**38 o ynadon**

8. PANELAU IEUENCTID A THEULU

Er bod dwy Ardal Cyfiawnder Lleol yn Sir Benfro, Gogledd Sir Benfro a De Sir Benfro, ceir un Panel Teulu ar y cyd ar gyfer Sir Benfro drwyddi draw, gydag ynadon o bob Ardal Cyfiawnder Lleol yn cael eu hethol i wasanaethu ar y Panel hwnnw. Ar hyn o bryd, mae gan y naill Ardal Cyfiawnder Lleol a'r llall yn Sir Benfro ei Phanel Ieuenctid ei hun. Canlyniad naturiol uno'r ddwy Ardal Cyfiawnder Lleol fydd cael un Panel Ieuenctid yn unig ar gyfer Sir Benfro.

Mae gan Sir Drefaldwyn eisoes banelau Teulu a Ieuenctid ar y cyd sy'n gweithredu ar sail y sir gyfan, gyda'r ynadon yn cael eu hethol o blith y naill Ardal Cyfiawnder Lleol a'r llall, sef De Maldwyn a'r Trallwng, i wasanaethu ar y panelau hynny.

9. FFIGYRAU POBLOGAETH

Dyma'r ffigyrau poblogaeth yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt gan y cynigion hyn:

Sir Benfro	**116,300**
Sir Drefaldwyn	**59,474**

Dim ond un Ardal Cyfiawnder Lleol sydd yng Ngheredigion lle ceir poblogaeth o 77,000, tra bo gan Sir Gaerfyrddin, sydd â thair Ardal Cyfiawnder Lleol boblogaeth o 175,600.

Cyfanswm poblogaeth Powys yw: 126,354. Poblogaeth y ddwy ardal weinyddol arall ym Mhowys, sef Brycheiniog a Sir Faesyfed, yw 42,075 a 24,805, yn y drefn honno.

10. FFIGYRAU BAICH GWAITH

Dyma'r ffigyrau baich gwaith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Rhagfyr 2004:

Sir Benfro	
Achosion 'naill ffordd'	**1,153**
Achosion diannod	**1,378**
Achosion moduro	**1,297**
Achosion toramod	**87**
Achosion ieuenctid	**270**
Cyfanswm	**4,185**

Sir Drefaldwyn	
Achosion 'naill ffordd'	**389**
Achosion diannod	**372**
Achosion moduro	**508**
Achosion toramod	**49**
Achosion ieuenctid	**117**
Cyfanswm	**1,435**

Achosion 'Naill Ffordd' yw'r rheini y gall Llys y Goron neu'r llys ynadon ymdrin â hwy, ond dim ond mewn llys ynadon y ceir ymdrin ag achosion diannod. Achosion toramod yw'r rheini lle bydd diffynnydd yn gorfod dychwelyd i'r llys ar ôl torri Amodau gorchymyn cymunedol.

Dyma'r ffigyrau ar gyfer cyfanswm baich gwaith (yn 2004) yr Ardal gyfan, sir wrth sir:

Sir Gaerfyrddin	**7,600**
Ceredigion	**2,251**
Sir Benfro	**4,185**
Powys	**3,398**

Mae ffigyrau Powys yn dangos manylion dwy ganolfan weinyddol y Sir, sef Aberhonddu a'r Trallwng, sy'n gwasanaethu eu dalgylchoedd:

Brycheiniog & Sir Faesyfed	**1,963**
Sir Drefaldwyn	**1,435**

11. CYD-DESTUN

(a). SIR BENFRO

Sir Benfro yw un o'r pedwar cyngor sir yn Nyfed Powys, a than ychydig o flynyddoedd yn ôl, roedd dau lys yn y sir, un yn Ninbych y Pysgod a'r llall yn Neuadd y Sir, Hwlffordd. Nid oedd y naill adeilad na'r llall yn addas i'w ddefnyddio fel llys, ac, yn unol â Chynllun Strategol cyn Bwyllgor Llysoedd Ynadon Dyfed Powys, datblygwyd un adeilad gwell yn Hawthorn Rise. Unwaith yr oedd adeilad Hawthorn Rise ar gael, caewyd Adeilad y Llys yn Ninbych y Pysgod ac Adeilad y Llys yn Neuadd y Sir, fel adeiladau llysoedd ynadon.

Er bod gwrthwynebiad i rannau o'r Cynllun Strategol, nid oedd unrhyw bryder sylweddol ynghylch y cynlluniau i ddatblygu un adeilad llys pwrpasol yn Hwlffordd i wasanaethu holl anghenion Ardal Cyfiawnder Lleol Sir Benfro.

(b). SIR DREFALDWYN

Tan 1974, roedd Sir Drefaldwyn yn gyngor sir annibynnol, ond o ganlyniad i'r ad-drefnu gan y Comisiwn Ffiniau yn y flwyddyn honno, daeth yn rhan o Bowys, ynghyd â hen gynghorau sir Brycheiniog a Maesyfed.

Fel oedd yn wir am Sir Benfro, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad sylweddol i'r cynlluniau i sefydlu un adeilad llys i wasanaethu anghenion Ardal Cyfiawnder Lleol Sir Drefaldwyn.

Ni ddefnyddir Adeilad Llys y Drenewydd ar hyn o bryd oherwydd diffygion yr adeilad. Ar hyn o bryd, defnyddir darpariaeth Adeilad Llys y Trallwng yn Neuadd y Dref, y Trallwng gan Ardal Cyfiawnder Lleol y Trallwng ac Ardal Cyfiawnder Lleol De Maldwyn. Mae cynlluniau ar y gweill i godi adeilad newydd ar gyfer Sir Drefaldwyn, fel rhan o Gynllun Partneriaeth Preifat-Cyhoeddus Dyfed Powys a Gwent.

(c). YN GYFFREDINOL

Ar hyn o bryd, nid yw'r cynlluniau i uno meinciau, yn Sir Benfro ac yn Sir Drefaldwyn, yn dylanwadu o gwbl ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag adeiladau, gan gofio bod ynadon yr ardaloedd cyfiawnder lleol hynny eisoes yn rhannu adeiladau yn y ddwy ardal lle cynigir yr uno.

Pwysleisir bod ynadon y ddwy Ardal Cyfiawnder Lleol yn Sir Benfro eisoes yn cynnal eu busnes fel petaent yn un Ardal Cyfiawnder Lleol, pa bryd bynnag y bo'n gyfreithiol bosibl iddynt wneud hynny. Yn yr un modd, mae'r ddwy Ardal Cyfiawnder Lleol yn Sir Drefaldwyn eisoes yn cynnal eu busnes fel petaent yn un Ardal Cyfiawnder Lleol, pa bryd bynnag y bo'n gyfreithiol bosibl iddynt hwythau wneud hynny.

12. CYFRINACHEDD

Mae'n bosib y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â gweithdrefnau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).
Os ydych chi eisiau i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech nodi bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sydd, ymhlith pethau eraill, yn delio ag ymrwymiadau cyfrinachedd. Yn wyneb hyn, byddai'n gymorth pe baech yn esbonio pam eich bod yn credu bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Pe baem yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn warantu y gellir parchu cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir unrhyw ymwrthodiad cyfrinachedd a gynhyrchir yn awtomatig gan eich system Technoleg Gwybodaeth, ynddo'i hun, yn rhwymedigaeth ar yr Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

13. CASGLIADAU

Ni fyddai'r cynigion, o'u gweithredu, yn cael effaith andwyol ar gyflwyno'r gwasanaeth.

Nid yw'r baich gwaith, o'i gymharu ag Ardaloedd Cyfiawnder Lleol eraill yn Nyfed Powys ac yng Nghymru a Lloegr, yn awgrymu bod angen mwy nag un Ardal Cyfiawnder Troseddol Lleol yn y naill ardal neu'r llall yr effeithir arnynt gan y cynigion hyn. O uno'r llysoedd yn y ddwy ardal, ni fyddai cyfanswm nifer ynadon heddwch y meinciau yn y naill Ardal Cyfiawnder Lleol na'r llall yn awgrymu bod angen mwy nag un Ardal Cyfiawnder Lleol, nac yn Sir Benfro, nac yn Sir Drefaldwyn. O'u cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr, corff bychan o ynadon heddwch fyddai gan y ddwy Ardal Cyfiawnder Lleol.

Gan fod ynadon Sir Benfro'n eistedd yn yr un adeilad llys, ac yn yr un modd, bod ynadon Sir Drefaldwyn yn eistedd yn yr un adeilad, ni fyddai uno'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn y naill na'r llall yn cael effaith sylweddol ar gyflwyno'r gwasanaeth.

Rhaid anfon eich ymateb i'r ddogfen hon ataf i, y sawl sydd wedi llofnodi isod, erbyn diwedd y Cyfnod Ymgynghori. Ar yr amlenni sy'n cynnwys ymatebion a sylwadau, dylid nodi eu bod at sylw **Rheolwraig Gyswllt y Farnwriaeth** gan ychwanegu:

'Ymateb i'r Ymgynghori – Uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol'

LUIGI STRINATI
Cyfarwyddwr yr Ardal
Dyfed Powys
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
4/5 Heol y Cei
Caerfyrddin
SA31 3JT

4ydd Gorffennaf 2005

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
ARDAL DYFED POWYS
Llysoedd Ynadon

ATODIAD UN

AMSERLEN YMGYNGHORI

DOSBARTHU'R ddogfen gan esbonio'r cynigion:

a. Uno'r ardaloedd cyfiawnder lleol a ganlyn i ffurfio un Ardal Cyfiawnder Lleol (Sir Benfro):

- **Gogledd Sir Benfro**
- **De Sir Benfro**

A

b. Uno'r ardaloedd cyfiawnder lleol a ganlyn i ffurfio un Ardal Cyfiawnder Lleol newydd (Sir Drefaldwyn):

- **De Maldwyn**
- **Y Trallwng**

YMGYNGHORIR Â:

- Barnwyr Llywyddol Cymru a Chaer
- Barnwyr Cyswllt Dyfed Powys
- Barnwyr Preswyl, Abertawe, Merthyr Tudful a'r Wyddgrug
- Ynadon Heddwch Dyfed Powys.
- Cadeirydd Cymdeithas Ynadon, Dyfed.
- Cadeirydd Cymdeithas Ynadon, Powys a Henffordd
- Aelodau Bwrdd Llysoedd Dyfed Powys.
- Prif Weithredwr pob un o siroedd Sir Benfro, Powys, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, gan amgáu ym mhob achos gopi arall i'w drosglwyddo i Gadeiryddion y cynghorau sir perthnasol.
- Ysgrifenyddion y Cynghorau Cymuned ym mhob rhan o Sir Benfro a Phowys.
- Aelodau Seneddol etholaethau sy'n cwmpasu unrhyw ran o Sir Benfro neu Sir Drefaldwyn.
- Aelodau Cynulliad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd â'u hetholaethau'n cwmpasu unrhyw ran o Sir Benfro neu sir Drefaldwyn.
- Prif Gwnstabl Dyfed Powys.
- Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Dyfed Powys.

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
ARDAL DYFED POWYS
Llysoedd Ynadon

- Pennaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Cymru.
- Pennaeth Gwasanaeth y Carchardai, Cymru.
- Rheolwr, Tîm Troseddau Ieuenctid, Sir Benfro.
- Rheolwr, Tîm Troseddau Ieuenctid, Powys.
- Gwasanaethau Hebrwng Carcharorion dan Gystodaeth (PECS).
- Reliance Custodial (Contractwyr PECS).
- Y Gwasanaeth Tystion, Dyfed.
- Y Gwasanaeth Tystion, Powys.
- Cymorth i Ddioddefwyr, Dyfed.
- Cymorth i Ddioddefwyr, Powys.
- Y Gwasanaeth Llyfrgell, Sir Benfro.
- Y Gwasanaeth Llyfrgell, Powys.
- Twrneiod Amddiffyn Dyfed Powys

HEFYD, hysbysebir fersiwn gryno, sy'n briodol i bob un o'r ardaloedd, gan nodi sut mae cael gafael ar y Ddogfen Ymgynghori lawn, mewn papur newydd lleol a gylchredir yn Sir Benfro ac ym Mhowys.

YN OGYSTAL Â HYN, bydd Hysbysiad tebyg i'r hysbysebion papur newydd yn cael ei osod mewn llysoedd a ddefnyddir yn rheolaidd gan ynadon heddwch yr Ardal Cyfiawnder Lleol berthnasol ar hyn o bryd. Rhoddir copi o'r hysbysiad sy'n berthnasol i'r ardal dan sylw hefyd yn swyddfeydd mwyaf lleol yr Ardal Cyfiawnder Lleol.

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
ARDAL DYFED POWYS
Llysoedd Ynadon

ATODIAD DAU

HYSBYSIAD PAPUR NEWYDD

HYSBYSIAD PAPUR NEWYDD (SIR BENFRO)

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
Dyfed Powys

ADRAN 8, DEDDF LLYSOEDD 2003: UNO ARDALOEDD CYFIAWNDER LLEOL

Cynigir uno Ardal Cyfiawnder Lleol Gogledd Sir Benfro a De Sir Benfro, i ffurfio un Ardal Cyfiawnder Lleol ar gyfer Sir Benfro. Nes rhoi Deddf Llysoedd 2003 ar waith, Ardal Llysoedd Ynadon oedd yr enw ar Ardal Cyfiawnder Lleol. Yr enw torfol ar ynadon yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol hyn yw '*meinciau'* o ynadon, ac maent eisoes yn eistedd yn yr un adeilad llys, sef Llysoedd Barn, Hawthorn Rise, Hwlffordd. Ni fwriedir i'r cynnig hwn arwain at unrhyw newid yn y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer defnyddwyr y llys. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 29ain Awst 2005 a gall unrhyw unigolyn neu gorff sydd â diddordeb gael copi o'r Ddogfen Ymgynghori drwy ysgrifennu at:

Cyfarwyddwr Ardal
Ardal Dyfed Powys
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
4/5 Heol y Cei
Caerfyrddin
SA31 3JT

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
ARDAL DYFED POWYS
Llysoedd Ynadon

ATODIAD TRI

HYSBYSEB PAPUR NEWYDD

HYSBYSEB PAPUR NEWYDD (POWYS)

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
Dyfed Powys

ADRAN 8, DEDDF LLYSOEDD 2003: UNO ARDALOEDD CYFIAWNDER LLEOL

Cynigir uno Ardal Cyfiawnder Lleol De Maldwyn a'r Trallwng, i ffurfio un Ardal Cyfiawnder Lleol ar gyfer Sir Drefaldwyn. Nes rhoi Deddf Llysoedd 2003 ar waith, yr enw ar Ardal Llysoedd Ynadon oedd Ardal Cyfiawnder Lleol. Yr enw torfol ar ynadon yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol hyn yw 'meinciau' o ynadon, ac maent eisoes yn eistedd yn yr un adeilad llys, sef Neuadd y Dref, y Trallwng. Ni fwriedir i'r cynnig hwn arwain at unrhyw newid yn y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer defnyddwyr y llys. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 29ain Awst 2005 a gall unrhyw unigolyn neu gorff sydd â diddordeb gael copi o'r Ddogfen Ymgynghori drwy ysgrifennu at:

Cyfarwyddwr Ardal
Ardal Dyfed Powys
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
4/5 Heol y Cei
Caerfyrddin
SA31 3JT